**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/LG/0917/14

Ann Jones AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Medi 2014

Annwyl Ann,

**Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG – CRAFFU CYFNOD 2 AR Y BIL ADDYSG A CHYNHWYSIANT ARIANNOL (CYMRU)**

Cyn ymddangos gerbron y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 1 Hydref 2014 yng nghwmni'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, rwyf yn darparu rhai ymatebion cychwynnol i'r cwestiynau ymgynghori allweddol a ofynnwyd ynglŷn â'r Bil hwn. I hwyluso cyfeirio atynt, rwyf wedi gosod fy ymateb o dan bob un o'r cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor (Atodiad 1).

Yn gywir,

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

***1. A oes angen Bil?***

<u>Adrannau 4, 5 a 6</u>
Nid wyf yn cytuno bod angen y Bil hwn, nac yn credu y bydd yn cyflawni'r nodau polisi sydd ganddo mewn golwg. Er fy mod yn cytuno bod angen addysg ariannol yn ysgolion Cymru, rwyf o'r farn bod yr angen hwnnw'n cael ei fodloni'n ddigonol eisoes. Mae wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol ers 2008, o fewn mathemateg a hefyd yn y fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Mae sgiliau manwl ynglŷn â rheoli arian ac addysg ariannol wedi eu cynnwys yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRhC), a fu'n statudol ers Medi 2013. Datblygwyd y rhain yn dilyn ymgynghoriad yn agored, ac mewn partneriaeth ag Uned Addysg Ariannol Cymru.

Buom yn ymgynghori yn ddiweddar, ar ddiwygiadau i'r rhaglen astudio mathemateg, er mwyn gwreiddio'r FfLlRhC yn y rhaglen honno, sydd eto'n cynnwys cyfres fanwl o ddatganiadau sgiliau ynglŷn ag addysg ariannol yn yr elfen 'Rheoli arian'. Er enghraifft, mae'r elfen honno'n cynnwys datganiadau ar reoli arian parod, cymharu costau gwahanol fanwerthwyr, disgowntiau, cyllidebu, cynllunio ac olrhain cyfrifon cynilo, elw a cholled, cyfrifon banc, cardiau banc, TAW, cynilo, benthyca, cyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid ac yswiriant. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2014 a'i wneud yn statudol o Fedi 2015 ymlaen. Ar wahân i gydnabod bodolaeth y cwricwlwm presennol neu arfaethedig yn gyffredinol, prin bod Memorandwm Esboniadol y Bil yn dangos unrhyw ymwybyddiaeth o'r addysg ariannol sydd eisoes yn rhan o'r cwricwlwm statudol.

Mae'r Bil hefyd yn cynnig adroddiad blynyddol gan Estyn ar addysgu addysg ariannol. Ar wahân i'r baich gwybodaeth a data y mae hyn yn ei greu, ac y cyfeiriaf ato yn ddiweddarach, mae gennym brosesau cryfach eisoes ar gyfer asesu sgiliau addysg ariannol ein dysgwyr. Mae'r ysgolion yn adrodd wrth rieni am gynnydd eu plant yn yr FfLlRhC, sy'n cynnwys yr elfen 'Rheoli arian'. Mae'r profion rhifedd blynyddol ar gyfer dysgwyr rhwng Blynyddoedd 2 a 9 yn cynnwys cwestiynau ar sgiliau ariannol. Ac yn olaf, dechreuir addysgu'r cymwysterau TGAU newydd mewn Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd yng Nghymru ym Medi 2015, a bydd y rheini'n cynnwys eitemau ar sgiliau llythrennedd ariannol.

Fy nghasgliad i yw fod y trefniadau presennol r gyfer y ddarpariaeth o gwricwlwm ac asesu yn gadarnach na dim a gynhwysir yn y Bil hwn. Gan hynny, yr unig ddiben a gyflawnir gan y Bil yn Adran 4 yw ysgrifennu'r geiriau 'addysg ariannol' mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae hynny beth bynnag yn ddiangen oherwydd bod addysg ariannol, am y rhesymau a roddais, yn cael ei haddysgu'n effeithiol eisoes yn y cwricwlwm yng Nghymru. Nid yw Adran 5 yn cyflawni ei nod polisi o ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu ar gyfer y pwnc newydd "addysg ariannol" a gyflwynir gan y Bil. Fodd bynnag, mae'r pŵer y cyfeirir ato yn adran 108 yn gymwys yn unig i bynciau craidd a sylfaen. Nid yw'r Bil yn gwneud "addysg ariannol" yn faes dysgu ar gyfer y cyfnod sylfaen, nac yn pwnc sylfaen ar gyfer y cyfnodau allweddol.

Effaith y cynigion yn y Bil yw gwneud "addysg ariannol" yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol nad oes pwerau ar ei gyfer sy'n ragnodi cynnwys yr hyn a addysgir mewn ysgolion. Yn yr ystyr hwnnw, byddai addysg ariannol yn debyg i Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) neu Addysg Gysylltiedig â Gwaith; yn orfodol, ond byddai hyblygrwydd gan yr ysgolion i benderfynu sut y'i cyflwynid. Gallai Llywodraeth Cymru baratoi fframwaith anstatudol fel yn achos ABCh, ond ni fyddai gorfodaeth gyfreithiol ar ysgolion i ddilyn y fframwaith hwnnw. Byddai'r Bil, felly, yn ein tywys o sefyllfa lle mae cynnwys yr addysg ariannol wedi ei ragnodi mewn Rhaglen Astudio Mathemateg, i sefyllfa lle byddai addysg ariannol yn "bwnc" statudol mewn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol na cheir rhagnodi ei gynnwys. Byddai hynny'n gadael "addysg ariannol" mewn gwannach sefyllfa na'r un bresennol.

Mae Adran 6, yn fy marn i, yn ddiangen ac yn dyblygu'r hyn y darperir ar ei gyfer eisoes mewn deddfwriaeth. Mae Adran 20 o Ddeddf Addysg 2005 yn gosod dyletswydd ar Estyn i roi gwybod i Weinidogion Cymru am ansawdd yr addysg a ddarperir mewn ysgolion, i ba raddau y mae'r addysg honno'n bodloni anghenion y disgyblion yn yr ysgolion hynny, a'r safonau addysgol a gyrhaeddir gan yr ysgolion hynny. Yn ychwanegol, mae Estyn dan ddyletswydd i ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru ar ba bynnag faterion a bennir gan y Gweinidogion.

Yn ogystal, mae adolygiad annibynnol ar droed, o'r holl gwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru o dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson. Rwy'n bryderus fod y Bil hwn yn ceisio achub y blaen ar ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw, gan orfodi ychwanegiad at y ddeddfwriaeth, beth bynnag fo casgliadau'r adolygiad hwnnw. Mae'r newid deddfwriaethol ychwanegol hwn yn un amheus ar y gorau, a buaswn yn dadlau y gallai'r Bil arfaethedig lesteirio yn hytrach na hyrwyddo addysg ariannol yng Nghymru.

Yn ychwanegol, hoffwn ddatrys y pryder a fynegir yn y Memorandwm Esboniadol, sef nad yw addysg ariannol yn rhan o gylch gorchwyl yr Athro Donaldson (paragraff 100). Ei gylch gorchwyl yw "… *mynegi gweledigaeth eglur a chydlynol ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4, gan gysylltu'n uniongyrchol â'n system gymwysterau newydd*". Rwy'n pwysleisio bod hyn yn cwmpasu'r holl gwricwlwm – gan gynnwys sgiliau ariannol.

<u>Adran 13</u>
Mae adran 13 o'r Bil yn cynnig gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn eu hardaloedd yn darparu cyngor am reolaeth ariannol i fyfyrwyr. Mae pryder difrifol a ellir gweithredu'r ddarpariaeth hon yn ymarferol, o ystyried nad oes perthynas uniongyrchol rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch; nid oes gan awdurdodau lleol bwerau mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach na phrifysgolion, a fyddai'n galluogi'r awdurdodau i gyflawni dyletswydd o'r fath. Yn ein barn ni, nid oes modd i'r ddarpariaeth hon, yn y ffurf y'i drafftiwyd, barhau'n rhan o'r Bil. Byddwn yn ymhelaethu ar y pwynt hwn yn nes ymlaen yn y llythyr hwn. Yn ychwanegol, nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod angen deddfu ar y mater hwn, a thybiwn y byddai'n well ffocysu'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg ariannol mewn ffyrdd eraill. Mae'n ffaith bod ystod eang o ddarpariaethau ar gyfer addysg ariannol yn bodoli eisoes, yn rhan o'r gwasanaethau bugeiliol a chymorth llesiannol a ddarperir o fewn AB ac AU; a chredwn y gellid annog sefydliadau i wneud rhagor drwy'r mecanweithiau presennol megis Llythyr Cylch Gwaith CCAUC a/neu gynlluniau ffioedd, neu lythyr blaenoriaethau'r Gweinidog at Benaethiaid a Chadeiryddion corfforaethau AB.

***2. A ydych o’r farn bod y Bil, fel y’i drafftiwyd, yn cyflawni’r amcanion a ddatganwyd, fel y’u hamlinellir yn y Memorandwm Esboniadol?***

Cyfeiriaf yn bennaf at fy mhwynt blaenorol, sef bod yr amcanion a ddatgenir yn cael eu bodloni’n fwy effeithiol gan yr hyn sydd eisoes wedi ei sefydlu, neu a sefydlir yn fuan.

Yn ychwanegol, nid yw’r dystiolaeth yn cyfleu mai ‘rhagor’ o addysg ariannol yn y cwricwlwm yw’r ateb priodol – a sylwaf nad yw’r Memorandwm Esboniadol yn esbonio wrthym beth, yn benodol, a olygir wrth ‘ragor’. Mewn adroddiad gan OECD a gyhoeddwyd ar 9 Gorffennaf, ar yr asesiad llythrennedd ariannol gan PISA (‘*PISA 2012 Results, Students and Money: Financial Literacy Skills for the 21st Century’)*, canfuwyd bod myfyrwyr a oedd yn perfformio ar lefelau uwch mewn mathemateg a/neu ddarllen hefyd yn perfformio’n well, yn gyffredinol, mewn llythrennedd ariannol. Yn syml, nid oes tystiolaeth y bydd ysgrifennu ‘addysg ariannol’ ar Ddeddf Addysg 2002 yn newid unrhyw beth o gwbl. Y peth gorau y gall Cymru ei wneud i wella’i llythrennedd ariannol yw gwella’i sgiliau mewn mathemateg a darllen. Mae’r rheini ymhlith fy mlaenoriaethau i, a byddai’n llawer gwell gennyf allu canolbwyntio adnoddau ar y sgiliau hynny, na’u dargyfeirio ar gyfer gofynion newydd er mwy bodloni deddfwriaeth sylfaenol.

O ddarllen y Memorandwm Esboniadol, rwy’n dal yn ansicr beth y mae’r aelod sy’n cynnig yn awgrymu fyddai’r amser addysgu gorau neu’r dull addysgu gorau. Mae’r ymatebion i’r cais Rhyddid Gwybodaeth gan 81 (allan o 212) o ysgolion uwchradd yn nodi amrywiannau yn yr amseroedd addysgu; ond nid oedd hyn y cynnwys y 1,360 o ysgolion cynradd a chanol a oedd yn weddill. Mae’r sampl yn un pur fach i dynnu casgliadau ohono. Rwy’n edmygu’r modd y llwyddodd cynifer o ysgolion i gofnodi oriau penodol o addysgu addysg ariannol, yn enwedig os oedd addysg ariannol wedi ei gwreiddio ar draws gwahanol bynciau fel yr anogir yn FfLlRhC. Nid yw’n eglur i mi ychwaith sut y bydd newid lleoliad y gofyniad i addysgu addysg ariannol o fewn y gyfraith yn arwain at gyflawni amcanion y Bil.

I grynhoi, fel un sy’n cefnogi addysg ariannol yn gyffredinol, gofynnais i mi fy hunan ai deddfwriaeth sylfaenol fel hon yw’r ffordd orau i gyflawni amcanion y Bil, ynteu’r ddeddfwriaeth, mecanweithiau, cymorth a darpariaethau sy’n bodoli eisoes. Yn groes i’r casgliad yn y Memorandwm Esboniadol, ni allaf weld sut y bydd y Bil hwn yn cyflawni’r amcanion a ddatgenir.

***3. A yw’r adrannau o’r Bil fel y’u drafftiwyd yn addas ar gyfer gwireddu’r dibenion a ddisgrifir uchod. Os na, pa newidiadau y dylid eu gwneud yn y Bil?***

<u>Adrannau 4, 5 a 6</u>
Rwyf wedi ymdrin â hyn yn yr adran flaenorol. Fy safiad presennol yw fod y Bil hwn yn ddiangen a bod y ddarpariaeth sy’n bodoli, ac yn yr arfaeth, yn fwy na digon at y dibenion a ddisgrifir yn y Memorandwm Esboniadol mewn cysylltiad ag Adrannau 4, 5 a 6 o’r Bil. Yn ddarostyngedig i drafod ymhellach gyda’m cydweithwyr, fy safiad yw y dylid newid y Bil i adlewyrchu’r dibenion hynny, yn unig, na ellir eu bodloni o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Ar gyfer hynny, bydd angen i’r aelod sy’n cynnig ddarparu rhagor o fanylion a gwell eglurder.

Fel y maent, nid yw Adrannau 4, 5 a 6 wedi f’argyhoeddi eu bod yn darparu budd digonol, os budd o gwbl, o ystyried y goblygiadau o ran cost ychwanegol ac amser.

Adran 13
Fel y'i drafftiwyd, mae Adran 13 o'r Bil yn rhoi awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i "gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn [ei hardal] yn darparu cyngor am reolaeth ariannol i fyfyrwyr'. Fel y nodwyd uchod yn y llythyr hwn, mae gennyf bryderon difrifol ynglŷn â'r ddarpariaeth hon. Prif bryder Llywodraeth Cymru yw nad oes gan awdurdodau berthynas uniongyrchol â chorfforaethau addysg bellach na phrifysgolion, a fyddai'n rhoi iddynt yr awdurdod i orfodi'r gofyniad hwn. Fel y cyfryw, nid fyddai'r ddyletswydd hon o fewn pwerau'r awdurdodau lleol i'w chyflawn, ac ni ellid ei gorfodi. Am rheswm hwnnw, ni allaf weld sut y gellir cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.

Credaf hefyd fod perygl y gwelid y ddarpariaeth yn ei ffurf bresennol fel ymgais i ymyrryd â'r egwyddorion sylfaenol o annibyniaeth ac ymreolaeth sefydliadau addysg uwch, a'r safbwynt athronyddol y dylent gadw o hyd braich i lywodraeth. Deallaf o'r Memorandwm Esboniadol nad hynny, hwyrach, oedd diben gwreiddiol y ddarpariaeth; ond, fel y mae wedi ei drafftio ar hyn o bryd, dyna fyddai ei heffaith.

Gellid cymhwyso dadl gyffelyb i'r sefydliadau addysg bellach, a grëwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel cyrff annibynnol ac ymreolaethol i gyflenwi dysgu ôl-16. Mae gan y sefydliadau hyn gyrff llywodraethu sydd â statws elusennau a eithriwyd ac sy'n gyfrifol am genhadaeth y sefydliad. Mae'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu'r annibyniaeth hon drwy, ymhlith pethau eraill, ganiatáu mwy o reolaeth i'r sefydliadau ar y ffordd y'u llywodraethir.

Rwy'n bryderus hefyd ynghylch y ffordd amwys y drafftiwyd yr adran hon. Nid oes diffiniadau o'r termau a ddefnyddir ac nid yw'n eglur pam y cynhwysir corfforaethau addysg bellach yn unig o fewn cwmpas y ddarpariaeth, yn hytrach na mathau eraill o sefydliadau addysg bellach, megis sefydliadau dynodedig. Yn yr un modd, ni ddarperir diffiniad o brifysgolion a'r sefydliadau y mae'n briodol eu cynnwys o fewn y term hwnnw.

Yn fy marn i, mae ffyrdd eraill, mwy effeithiol o ffocysu adnoddau ar addysg ariannol ar gyfer AB ac AU. Mae ystod eang o ddarpariaethau addysg ariannol yn bodoli eisoes o fewn AB ac AU. Mae sefydliadau AU eisoes yn darparu lefel sylweddol o gymorth ac arweiniad ariannol i'w myfyrwyr fel rhan o becyn cymorth llesiannol a bugeiliol. Mae'n bosibl hefyd annog sefydliadau AB ac AU i wneud rhagor drwy'r mecanweithiau presennol megis Llythyr Cylch Gwaith CCAUC a chynlluniau ffioedd yn hytrach nag ymdrechu i osod dyletswydd statudol arall ar awdurdodau lleol. Fel cyfrwng tebyg yn achos AB, gellir defnyddio llythyr blaenoriaethau'r Gweinidog at Benaethiaid a Chadeiryddion corfforaethau AB. Rwy'n argymell yn gryf, felly, tynnu'r ddarpariaeth hon allan o'r Bil.

***4. Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae cyrff yn ei wneud ar hyn o bryd a beth, os unrhyw beth, fydd effaith newidiadau o'r fath?***

Bydd effaith y Bil yn dibynnu i raddau helaeth ar y newidiadau penodol a fydd yn tarddu ohono – ac mae'r rheini'n aneglur ar hyn o bryd. Rwyf yn ymhelaethu ar hyn isod:

Adrannau 4 & 5
Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflenwi'r hyn a ddisgwylir gan Adran 4, a'i heffaith felly yw gwneud newid deddfwriaethol diangen, a allai lyffetheirio ymhellach gynlluniau

cwricwlwm Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Cynnig tebyg sydd yn Adran 5. Rydym eisoes wedi manteisio ar bobl sydd â'r arbenigedd perthnasol, i ddatblygu'r FfLlRhC a'r rhaglen astudio ar gyfer mathemateg.

Ni fydd y consortia addysg rhanbarthol a'r ysgolion yn sylwi ar unrhyw newid, nac unrhyw fudd, o ganlyniad i'r newid yn y ddeddfwriaeth.

Os digwydd unrhyw newid yn strwythur neu gynnwys y cwricwlwm mewn cysylltiad â chynllunio, datblygu a gweithredu fframwaith addysg ariannol gwahanol ac ar wahân, nad yw eto wedi ei ganfod na'i nodi, effaith ychwanegol Adrannau 4 a 5 ar Lywodraeth Cymru fyddai'r canlynol:

- Recriwtio a chadw arbenigw(y)r pwnc addas i baratoi'r fframwaith a'r cymorth ar gyfer y ddarpariaeth anstatudol
- Datblygu'r ddarpariaeth honno ynghyd â chymorth ar gyfer ysgolion
- Paratoi a chyhoeddi canllawiau a deunyddiau addysgu

Byddai goblygiadau o ran baich gwaith athrawon a goblygiadau ariannol oherwydd newid (hynny yw, *ychwanegu at*) Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), DPP a diwrnodau HMS (paragraff 107). Hyd y gwn i, nid oes capasiti dros ben o fewn HCA, ac felly byddai'r newidiadau yn sylweddol – o ran cynnwys yn ogystal â chostau.

Byddai'r rhain yn gyfuniad o gostau untro a chostau rheolaidd, a fyddai'n cael eu talu, yn ôl pob tebyg, o amlen gyllid fy adran i.

Bydd yr ysgolion yn wynebu gofyniad addysgu ychwanegol, ac yn cael adnoddau, deunyddiau a hyfforddiant ychwanegol yn gysylltiedig â hynny. Mae'n amlwg y disgwylir iddynt ddefnyddio rhai o'u diwrnodau HMS at y diben o hyfforddi, a gallai hynny gymryd lle hyfforddiant arall a gynlluniwyd – megis hyfforddiant llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, bydd yr ysgolion yn dibynnu'n bennaf ar y consortia addysg rhanbarthol am gyngor proffesiynol ac arweiniad. Os nad yw'r capasiti ar hyn o bryd yn ddigon i ymateb i'r galw, bydd rhad i'r consortia ei gaffael o'r tu allan. Ni fydd gan y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) adnoddau i ddiwallu gofynion ychwanegol o ganlyniad i'r Bil hwn oni ellir darparu adnoddau ychwanegol, neu ailddyrannu'r cyllid RhGG presennol i ddarparu ar gyfer y galw ychwanegol am gymorth i addysg ariannol.

<u>Adran 6 – Adroddiad Blynyddol</u>

Byddai Adran 6 yn gosod gofyniad ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu adroddiad blynyddol ar addysgu addysg ariannol, ac o bosibl gwneud yn ofynnol ein bod yn casglu data ychwanegol a gwybodaeth arall. Ar gyfer y cylch adrodd blynyddol a fwriedir, mae'n debygol y gofynnir am ddata a gwybodaeth na phenderfynwyd yn eu cylch hyd yma. Yn olaf, os Estyn, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, fydd yn ymgymryd ag ysgrifennu'r adroddiadau hyn, bydd gofyn i'r corff hwnnw wario cyfran o'i adnoddau ar y baich arolygu ac adrodd a grëir.

Mae Estyn eisoes yn paratoi adroddiad ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru (adran 19 o Ddeddf Addysg 2005). Mae adroddiad Estyn yn seiliedig ar yr arolygiadau a ymgymerwyd yn y flwyddyn flaenorol, o tua chweched ran o'r ysgolion a darparwyr hyfforddiant. Gosodir yr adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer ei drafod gan yr Aelodau yn ystod y gwanwyn bob blwyddyn. Byddai paratoi ail adroddiad blynyddol ar un mater penodol, ar sail gwybodaeth o ffrâm amser wahanol (sef blwyddyn ariannol yn hytrach nag academaidd) yn ddiangen, hwyrach yn peri dryswch, ac yn tynnu costau sylweddol ar

adeg pan fo'r cyllidebau dan bwysau cynyddol wrth geisio cyflawni'r ymrwymiadau presennol. Mae'n amheus a fyddai adroddiad blynyddol yn cyfiawnhau gwariant o'r fath, drwy ddatgelu unrhyw gynnydd sylweddol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fel y nodwyd uchod, mae pŵer gan Weinidogion Cymru eisoes i fynnu bod Estyn yn darparu cyngor ar ba bynnag faterion a bennir gan y Gweinidogion.

Yn ychwanegol, i ryw raddau, bydd Estyn yn adrodd am hyn hefyd yn ei adroddiad ar yr eitemau rhifedd sydd yn ei gylch gwaith, ac wrth adrodd ar fathemateg. Byddai angen datrys y dyblygu y byddai hyn yn i achosi

***5. Beth yw'r rhwystrau posibl (os oes rhai) a allai atal darpariaethau'r Bil rhag cael eu gweithredu, a sut y mae'r Bil yn eu cymryd i ystyriaeth?***

Rwyf wedi amlinellu nifer o faterion sy'n peri pryder ac a allai rwystro gweithredu darpariaethau'r Bil. Mae yna, fodd bynnag, bryder penodol ychwanegol yr hoffwn gyfeirio ato mewn perthynas ag Adran 6(3).

Dylid nodi, pe rhoddid y cyfnod lleiaf o rybudd o dan y Bil, na fyddai tri mis yn gyfnod hir iawn ar gyfer rhoi cyfarwyddyd i wneud y gwaith hwn. Fel enghraifft, mae'r cylch gorchwyl blynyddol roddir i Estyn yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn Ionawr bob blwyddyn, ar gyfer gwaith sydd i'w gychwyn yn Ebrill a'i gwblhau yn ystod y mis Mawrth dilynol. Deallwn hefyd fod adroddiad blynyddol Estyn yn cymryd tua chwe mis i'w baratoi. Pe cyfarwyddid Estyn i wneud y gwaith sydd dan sylw, byddai angen rhoi cyfnod hwy o rybudd yn y flwyddyn gyntaf. Wedi hynny, gallai'r gwaith ddod yn rhan o'i amserlen flynyddol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, ar gyfer hyn byddai angen naill ai adnoddau ychwanegol neu ddargyfeirio adnoddau o flaenoriaethau eraill. Pe gofynnid i ddarparwr gwahanol wneud y gwaith, byddai'n ofynnol rhoi cyfnod hwy o rybudd bob blwyddyn.

***6. A oes gennych unrhyw farn ynglŷn â'r modd y mae'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?***

Mae'r darpariaethau yn Adrannau 4, 5, 6 a 13 o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'u pennir o dan y pwnc *"Education and Training"* ym mharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r paragraff hwnnw'n darparu fel a ganlyn:

"*Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge*.

*Exception—*
*Research Councils*."

***7. Beth yw eich barn ynglŷn â phwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth?***

Nid yw'r Bil, yn Adrannau 4 i 6 nac yn Adran 13, yn rhoi unrhyw bwerau newydd i wneud is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae Adran 5 yn ceisio gwneud diwygiad mewn pwerau o'r fath sy'n bodoli eisoes, yn adran 108 o Ddeddf Addysg 2002. Credaf nad yw'r diwygiad yn cyflawni'r nod polisi o ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio a threfniadau asesu ar gyfer y pwnc newydd o "addysg ariannol" a gyflwynir gan y Bil. Mae'r pŵer yn adran 108 o Ddeddf 2002, fodd bynnag, yn gymwys yn

unig i bynciau craidd a sylfaen. Nid yw'r Bil yn gwneud "addysg ariannol" yn bwnc craidd nac yn bwnc sylfaen. Ni fydd y diwygiad, felly, yn cael unrhyw effaith gyfreithiol, ac ni fydd modd i Weinidogion Cymru bennu targedau cyrhaeddiad, rhaglenni astudio na threfniadau asesu ar gyfer y pwnc newydd o "addysg ariannol" a gyflwynir gan y Bil.

***8. Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?***

Mae Tabl 1 yn y Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif yr achosir cost untro o £1.45 miliwn am weithredu'r Bil, ynghyd â £4.534 miliwn yn flynyddol wedyn. Yn Nhabl 2, rhagamcenir mai'r costau dros y 5 mlynedd cyntaf o weithredu'r Bil fyddai £17.871 miliwn.

<u>Costau – Adrannau 4 a 5</u>
Ynglŷn ag adrannau 4 a 5 o'r Bil arfaethedig, gan ragdybio nad yw'r FfLlRhC a'r fframwaith rhaglenni astudio presennol yn ddigonol – mater nas profwyd hyd yma – er mwyn creu fframwaith, byddai angen inni fabwysiadu'r dull arferol o ddatblygu a chefnogi fframwaith anstatudol newydd. Rydym yn rhagdybio hefyd y bydd angen, rhywsut, ail-gynnalpbroses o gynhyrchu deunyddiau ar gyfer y sgiliau newydd, fel y gwnaem pan oedd Uned Addysg Ariannol Cymru yn weithredol.

Rydym yn amcangyfrif y gellir dadansoddi'r gost hon fel a ganlyn:

> £400k – cost untro – amser arbenigwr pwnc, ymgynghori, hyffordd a deunyddiau enghreifftiol
> £800k – dros gyfnod o bedair blynedd i gynhyrchu deunyddiau addysgu ar gyfer y cynnwys newydd

Rydym yn cefnogi llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion yn flynyddol drwy'n Grant Effeithiolrwydd Ysgolion sy'n darparu cyllid sylweddol i'r ysgolion a'r consortia addysg rhanbarthol. Mae'r consortia yn cael cyllid hefyd o ffynonellau eraill i gynorthwyo llythrennedd a rhifedd. Bydd rhaid neilltuo is-set o'r ffynonellau hyn i gynorthwyo unrhyw addysg ariannol dros ben yr hyn a ddarperir yn FfLlRhC a'r rhaglen astudio mathemateg.

Rydym hefyd yn cyllido Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) gwerth £16 miliwn dros bedair blynedd, i ddarparu galluoedd a chapasiti ychwanegol i ysgolion a chonsortia ar gyfer cyflenwi'r FfLlRhC. Mae'r cymorth cyfredol ar gyfer addysg ariannol wedi ei gynnwys yn hyn, a byddai'n anodd ei eitemeiddio. Fodd bynnag, pe byddid yn ychwanegu gofynion addysg newydd, mae'n bosibl y byddai angen rhaglen gymorth newydd, gan mai rhaglen am dymor penodedig yw RhGG. Naill ai hynny, neu byddai'n cael ei gynnal ar draul darpariaeth a gynlluniwyd eisoes. Os na ragwelir y bydd unrhyw ofynion ychwanegol, byddai'n rhaid gofyn pa fudd o gwbl a ddisgwylir o'r Bil arfaethedig hwn .

<u>Costau – Adran 6</u>
Ynglŷn â'r cynnig yn Adran 6, byddai i ymrwymo i baratoi adroddiad blynyddol ar un maes pwnc yn gosod pwysau ychwanegol ar yr adnoddau, ar adeg pan fo'r pwysau arnynt eisoes yn sylweddol; a gallai osod cynsail ar gyfer adroddiadau blynyddol ar bynciau neu faterion trawsbynciol eraill. Heb gynnydd yn yr adnoddau, ni allai Llywodraeth Cymru nac Estyn, fodloni gofyniad o'r fath.

Mae Estyn wedi cadarnhau y byddai'n bosibl integreiddio addysg ariannol o fewn y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Byddai hynny, fodd bynnag, yn tynnu costau rheolaidd o tua £140,000 y flwyddyn, cyfwerth â gwariant oddeutu 1.2% o'u cyllid gyffredinol o

£11,664,000, er mwyn darparu gwybodaeth am lai nag 20% o'r ysgolion bob blwyddyn. Mae hwn yn swm sylweddol i'w wario ar un agwedd ar y cwricwlwm, a hynny ar adeg pan fo adolygiad llawer ehangach o'r Cwricwlwm yn cael ei gynnal. Amcangyfrifir y byddai'r costau untro hefyd oddeutu £50,300 fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 336).

Mae angen gwaith a dadansoddiad pellach cyn y ceir gwell amcan a yw'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) o'r trefn maint priodol hyd yn oed, heb sôn am fod yn fanwl gywir. Os yw'n gywir, bydd gwario £3.5 miliwn y flwyddyn yn ffordd ddrud iawn o drin arian Llywodraeth Cymru mewn unrhyw amgylchiadau. Buaswn hefyd yn gofyn beth yr bwriedir ei aberthu er mwyn cyllido hyn.

Yn y Memorandwm Esboniadol, sylwaf mai Opsiwn 3 yn unig (sef yr opsiwn a ffefrir) sydd wedi ei gostio'n llawn. Er mwyn gwneud dadansoddiad llawn o gostau a buddion y Bil, buaswn yn disgwyl gweld dadansoddiadau o gost pob un o'r opsiynau. Rwy'n awgrymu y dylid, os oes modd, eitemeiddio pob adran yn yr AERh, gan y gallai gwahanol ffyrdd o weithredu fod yn briodol ym mhob adran.

Nid yw'r AERh yn adfyfyrio'n ddigonol ar 'gost cyfle' pob un o'r opsiynau. Er enghraifft, byddai'r amser a dreulid ar sgiliau ariannol, dros ben yr hyn a ddisgwylir eisoes mewn ysgolion, yn amser a gymerid oddi ar yr ymrwymiadau cwricwlaidd presennol. Nid yw'n eglur beth y byddid yn ei aberthu o ganlyniad. Yn ychwanegol, ni rodir ystyriaeth i gost cyfle na chost ariannol ail-flaenoriaethu'r diwrnodau HMS, y gofynion HCA newydd na'r gofynion DPP newydd. Cyfeirir yn gryno at y rhain ym mharagraffau 106 a 107 heb adfyfyrio na manylu ymhellach. Buaswn yn petruso cyn cynnwys unrhyw beth mewn deddfwriaeth a fyddai'n gosod gofynion ychwanegol ar y gweithlu, heb ystyried y gofynion hynny yn briodol nac ymgynghori â'r gweithlu yn benodol. Nid wyf yn credu y byddai Bil yn addas i'w ddiben pe bai'n pasio ar y telerau hynny.

<u>Buddion</u>

Ynglŷn â'r adroddiad gan y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes (CEBR) y cyfeirir ato ym mharagraff 362, mae tri phwynt yr hoffwn eu codi.

Yn gyntaf, un o'r ffynonellau y mae'r adroddiad yn tynnu ohonynt yw'r papur academaidd Barry, Lee a Miller (2003), '*Schooling, Literacy, Numeracy and Labour Market Success*'. O edrych yn fanylach, yr hyn y mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio bod y buddion yn dod o feddu'r sgiliau rhifedd a llythrennedd a gymhwysir mewn addysg ariannol, ac nid o'r addysg ariannol ei hunan. Mae'n ymddangos bod hyn yn ategu safiad PISA a Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi'r pwyslais ar rifedd a llythrennedd, ac yn gwreiddio addysg ariannol o fewn hynny.

Yn ail, ysgrifennwyd yr adroddiad hwn am y DU, ac nid am Gymru. Yn wyneb y gwahaniaethau eglur rhwng dulliau addysg yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig ynghylch llythrennedd, rhifedd ac addysg ariannol, buaswn yn teimlo fy mod ar dir diogelach o lawer yn adolygu tystiolaeth o adroddiad mwy perthnasol, sydd â gwell ffocws. Credaf y byddai'n rhesymol gofyn am y dadansoddiad hwnnw cyn bo neb yn cynnig newid deddfwriaeth sylfaenol.

Ac yn olaf, mae dadansoddiad CEBR yn defnyddio methodoleg eithaf simplistig i asesu'r arbedion costau posibl o ganlyniad i gynnydd mewn addysg ariannol. Er enghraifft, mae'r prif fudd yn ymwneud ag annog pobl i gynilo ar gyfer eu hymddeoliad, a thrwy hynny

leihau gwariant gan y llywodraeth pan ganfyddir bod cynilion yn annigonol. fodd bynnag, nid yw'r cyfrifiad hwn yn cydnabod y posibilrwydd o effeithiau economaidd ehangach sy'n gysylltiedig â chynilo, megis gostyngiad mewn gwariant gan ddefnyddwyr.

Mewn adroddiad ar wahân ar Adolygiad o Wasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru, y dyfynnir ohono ym mharagraff 367 o'r Memorandwm Esboniadol, nodir y sylw canlynol ar y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth:

*'The MoJ however have questioned the findings of the Citizens Advice work, highlighting concerns with the methodology employed and significance attached to the source figures that underpin the assumptions on which the findings are based upon. MoJ do recognise that early advice can be helpful in a range of contexts, however stress the practical help as opposed to legal advice.'*

Buaswn yn awgrymu bod angen rhagor o dystiolaeth a manylion i ategu buddion y ddeddfwriaeth hon, cyn y gellir eu derbyn yn hyderus.

***9. Oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch adrannau penodol o'r Bil ?***

<u>Adran 4, 5 and 6</u>

Buaswn yn crynhoi fy safiad mewn perthynas ag Adrannau 4, 5 a 6 drwy ddweud na chefais fy argyhoeddi o fanteision deddfu yn y modd hwn, am y rhesymau canlynol:

a. Hyd y gwelaf, rydym eisoes, o dan ein pwerau deddfwriaethol presennol, yn cyflawni'r gweithgarwch y mae'r Bil yn cynnig deddfu ar ei gyfer. Hyd yn oed pe na baem yn ymgymryd â rhai agweddau ar addysg ariannol, byddai'n fwy effeithiol defnyddio'r moddion presennol, yn hytrach na chreu gofyniad deddfwriaethol newydd.

b. Mae'r newidiadau yn ymddangos yn creu baich gweinyddol ychwanegol, yn enwedig ynghylch y fframwaith anstatudol newydd a'r gofyniad i adrodd yn flynyddol, pan nad oes unrhyw fudd ychwanegol dirnadwy yn deillio yn benodol o'r gofynion hynny.

c. Mae'r newid yn ymddangos yn un arwynebol, sy'n gosod 'addysg ariannol' mewn deddfwriaeth sylfaenol, er bod addysg ariannol eisoes wedi ei sicrhau mewn is-ddeddfwriaeth. Nid hon yw'r ffordd orau i ddefnyddio pwerau ac amser Llywodraeth Cymru.

d. Nid wyf yn credu bod yr achos dros y ddeddfwriaeth wedi ei brofi, yn nhermau gweithredoedd sy'n bodloni'r angen a nodwyd ganddi, ac yn sicr, nid yn nhermau costau a buddion pob opsiwn a phob adran.

e. Yn olaf, ac yn bwysicaf oll, mae'r Bil arfaethedig ychydig yn gynamserol, o ystyried bod adolygiad annibynnol a phellgyrhaeddol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar droed dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson. Ffordd lawer mwy effeithiol o fodloni'r anghenion hyn o fewn y cwricwlwm fyddai goleuo a dylanwadu ar adroddiad yr Athro Donaldson.

Adran 13

Mae paragraff 199 o'r Memorandwm Esboniadol yn ymwneud ag Adran 13 o'r Bil. Mae'n awgrymu y dylai awdurdodau lleol:
*"ddefnyddio cyfleoedd megis y rhai a ddaw wrth iddynt asesu a yw pobl sy'n gwneud cais am leoedd addysg uwch yn gymwys i dderbyn cymorth i fyfyrwyr, i gynnig gwybodaeth, arweiniad a chyfeirio at gyngor am faterion ariannol*".

Mae'r paragraff yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r newidiadau yn y modd yr asesir cymhwystra am gymorth myfyrwyr, a wnaed pan foderneiddiwyd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn 2014. O ganlyniad, ystyriwn fod y dull a gynigir yn ddiffygiol

Mae rôl gyfredol yr awdurdodau lleol o ran asesu cymhwystra myfyrwyr ar gyfer cymorth myfyrwyr statudol eisoes wedi ei chyfyngu i fyfyrwyr sy'n parhau â'u cyrsiau. Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sy'n gyfrifol am asesu cymhwystra myfyrwyr newydd ar gyfer cymorth. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2014/15, bydd holl ymwneud yr awdurdodau lleol ag asesu hawlogaeth am gymorth myfyrwyr statudol yn peidio. O ddechrau blwyddyn academaidd 2015/16 ymlaen, y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fydd yn gyfrifol am asesu'r hawlogaeth i pob myfyriwr, boed newydd neu'n parhau â'i gwrs.